



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

18 Mai 2020

9:00 am to 10:05 yb

trwy Skype

Yn bresennol o bell:	Add Teresa Owen (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Bethan E Jones, Chris Stockport, y Cyng. Bobby Feeley, y Cyng. Christine Jones, y Cyng. Joan Lowe (JLo), y Cyng. Louise Emery, y Cyng. Dafydd Meurig, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, John Gladston, Judith Greenhalgh, Lucy Reid (yn bresennol ar ran Marian Wyn Jones), Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Michael Jones (yn bresennol ar ran Neil Ayling), Nicola Stubbins, Peter Williams, Roma Hooper, Shan Lloyd Williams, Clare Budden (ymunodd am 9.15 yb), Estelle Hitchon (ymunodd am 9:20yb), Kevin Roberts (ymunodd ar gyfer rhan o'r cyfarfod)
Ymddiheuriadau:	Catherine Elaine Jones, y Cyng Llinos Medi Huws, Marian Wyn Jones, Neil Ayling, Rob Smith, Lynda Colwell

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i Gyfarfod Arbennig rhithiol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a nodwyd ymddiheuriadau fel yr uchod.

2 Trefniadau Llywodraethu Dros Dro Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Derbyniodd y bwrdd adroddiad gan BJE ynghylch Trefniadau Llywodraethu Dros Dro Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Crëwyd y ddogfen hon er mwyn darparu trefniadau dros dro mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau gan nad yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae nifer o ffrydiau cyllido yn cael eu rheoli drwy'r Gronfa Gofal Integredig; Refeniw, Cyfalaf, System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, Awtistiaeth a Chynllun y Gaeaf. Fel rhan o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan LIC, mae gan ranbarthau'r opsiwn i newid cyfeiriad cyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi gwaith Covid-19 lle bo angen.

Nododd MWim yr angen i symud yn gyflym i alluogi penderfyniadau cyflym yn ystod y cyfnod hwn, a nododd ei bod yn cytuno y dylid cymeradwyo'r adroddiad, ar yr amod bod partneriaid anstatudol hefyd yn cael cyfle i gyfrannu er mwyn sicrhau fod pob sector yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid iechyd a gofal cymdeithasol. .

Rhannodd BEJ bryderon am y peryglon sydd ynghlwm â'r prosiectau cyfalaf sylweddol o fewn yr ardal ganolog, nid yw'r rhain wedi dechrau eto. Byddai penderfyniad i newid cyfeiriad yn cyflwyno risg, gan nad oes sicrwydd am gyllid i ddatblygu'r prosiectau strategol hyn yn y dyfodol.

Nododd EH debygrwydd rhwng cynlluniau a nodwyd mewn rhanbarthau eraill, ac er ei fod yn benderfyniad anodd, nid oes sicrwydd y bydd Covid yn cael ei ariannu'n llawn gan LIC.

Gofynnodd y Cyng. JLo am gadarnhad yn ymwneud â chynllun cyfalaf CBSW, nododd fod disgwyl i'r gwaith ddechrau'r wythnos hon. Cadarnhaodd BJE nad yw newid cyfeiriad yn ofyniad, ond ei fod yn opsiwn i'w ystyried os nad oes modd parhau â'r cynllun cyfalaf.

Ymholodd y Cyng. BF a oedd y cynlluniau adfer a gaiff eu trafod gan Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd yn rhan o gylch gwaith y Gronfa Gofal Integredig.

Nododd TO ei fod yn gyfrifoldeb ar bawb i gefnogi'r cam adfer, ac y bydd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rôl i'w chwarae fel rhan o'r broses, a bod grŵp rhanbarthol wedi cael ei sefydlu i arwain ar y gwaith hwn.

Ymholodd y Cyng BF hefyd am gyllid a wariwyd ar gyfleusterau nad ydynt wedi cael eu defnyddio, h.y. Ysbyty Enfys, Llandudno.

Cadarnhaodd TO y bydd y rhanbarth yn gweithio gyda'i gilydd i feddwl am asedau sydd ar gael a bydd hyn yn cael ei drafod fel rhan o'r trafodaethau am gynlluniau adfer a chynlluniau i'r dyfodol yng nghyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Integredig Ardal.

Amlygodd KR y bydd y cam adfer yn cael ei ymestyn, gyda cham trosglwyddo wedi'i gynnwys rhwng y cam ymateb a'r cam adfer yn sgil y bygythiad posibl o broblemau'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau cyfyngiadau ar symud yn digwydd eto, bydd y grŵp adfer rhanbarthol a sefydlwyd yn ddiweddar yn arwain ar hyn. Nododd KR hefyd fod strwythurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chysylltiadau â phartneriaid yn argoeli'n dda i'r dyfodol fel sianel i helpu i ddarparu'r gofyniad dan y cam adfer.

Cadarnhaodd JG hefyd fod y grŵp adfer rhanbarthol a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnig defnyddio grwpiau presennol i ddarparu'r gofynion a bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rôl enfawr i'w chwarae mewn perthynas ag adferiad Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

Yn dilyn trafodaeth lawn, roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno i gymeradwyo'r Trefniadau Llywodraethu Dros Dro.

3 Cynllun y Gronfa Gofal Integredig i Gefnogi Rhyddhau Cleifion

Rhoddodd BJE wybod fod LIC wedi cyhoeddi y bydd £10miliwn ychwanegol ar gael i gefnogi'r ymateb i Covid-19. Caiff yr arian hwn ei gyhoeddi i ranbarthau fel cynnydd i'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu ail rownd y rhaglen drawsnewid ac felly ni fydd y cynnig a gyflwynwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn parhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu defnyddio'r cyllid hwn i ddarparu'r £10 miliwn i gefnogi rhyddhau cleifion.

Gan fod LIC yn ffafrio un cynllun rhanbarthol, mae cynigion wedi'u trafod a'u cytuno'n lleol gan y Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal isranbarthol, ac wedi'u cyfuno i un cynnig i LIC dan bedair prif thema.

Nododd cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Integredig yr Ardal Ganolog, JW, fod y Bwrdd wedi cyfarfod o bell yr wythnos diwethaf i drafod cynigion sy'n canolbwyntio ar ryddhau cleifion a datblygu cyfleusterau camu i lawr. Mae'r sefydliadau tai a'r trydydd sector wedi'u cynnwys yn y drafodaeth a'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor, mae rhagor o fanylion eto i'w cytuno'n llawn.

Rhoddodd cadeirydd Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal y Gorllewin, FJ, wybod am ddull tebyg a ddefnyddir yn y Gorllewin, cynhaliwyd grŵp rhithiol yr wythnos diwethaf i ystyried cefnogi rhyddhau cleifion yn gynnar a gwella capasiti cymunedol a chymorth gofalwyr i blant ar draws ardal y Gorllewin. Mae camau gweithredu'n parhau i gael eu trafod, a chaiff cysylltiadau eu gwneud gyda'r trydydd sector er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfrannu.

Rhoddodd MJ wybod, yn absenoldeb NA, y bydd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn defnyddio dull tebyg gyda chynllun rhaglen manwl a phrosiect penodol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty a chyfleusterau camu i lawr.

Sylwadau a dderbyniwyd cyn y cyfarfod:

Datganodd LC ddiddordeb yn ymwneud â'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y Trydydd Sector – asiantaethau Gofal a Thrwsio ar draws y rhanbarth. Gofynnodd LC i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid cael cyllid cyfalaf wrth symud ymlaen eleni er mwyn darparu ar gyfer y galw ar ein gwasanaethau am addasiadau sy'n ychwanegol i'r lefel arferol gan fod cleifion COVID angen cymorth dros gyfnod hirach nid ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn unig, ac felly mae gofyn ar draws y rhanbarth am arian refeniw / cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r gwaith fel yr adlewyrchir yn y cais gan LIC sy'n gofyn i asiantaethau Gofal a Thrwsio gael eu hystyried mewn perthynas ag anghenion cyllid i'r dyfodol.

Nododd LC ei bod yn cytuno y dylid cymeradwyo Cynllun y Gronfa Gofal Integredig i Gefnogi Rhyddhau Cleifion, ac yn credu y gellir ac y dylid gwneud mwy mewn perthynas â chyfranogiad arweinwyr y Gronfa Gofal Integredig ar y Trydydd Sector cyn gynted â phosibl.

Cadarnhaodd SLW fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eisoes yn gweithio gyda PBC ac Awdurdodau Lleol a bod cysylltiadau eisoes wedi'u gwneud â Gofal a Thrsio i gynorthwyo â'r cynllun cefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gynnar.

Ymholodd TO a yw'r cynigion yn cynnwys gwaith asesu effaith a nifer dangosol y bobl fyddai'n derbyn cymorth.

Mae'r holl brosiectau wedi cael eu cynhyrchu mewn cyfnod byr iawn. Bydd gwaith ar ganlyniadau a deilliannau yn cael ei gwblhau gan Fyrddau Gwasanaethau Integredig Ardal. Mae trefniadau adrodd LIC yn ymofyn i bob rhanbarth adrodd yn erbyn canlyniadau a deilliannau ac felly bydd y rhain yn cael eu casglu ar gyfer adroddiadau LIC.

Cododd M Wimbury bryder nad yw'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru o £40 miliwn i gefnogi darparwyr yn cynnwys y darparwyr hynny sy'n darparu gofal nyrsio megis Gofal Iechyd Parhaus. Os na chaiff y mater hwn ei ddatrys, yna bydd y sector darparwyr yn wynebu perygl.

Yn dilyn trafodaeth gyda LIC, roedd ME yn credu fod y £40 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer gwllau a gaiff eu comisiynu gan ofal cymdeithasol yn unig ac yn deall fod LIC yn ymdrechu i ddod o hyd i gyllid ar wahân ar gyfer gofal nyrsio o'u hadran Iechyd. Awgrymodd ME hefyd fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ysgrifennu at LIC, yn amlygu'r costau ychwanegol i'r sector nyrsio a'r risg i gynaliadwyedd y darparwyr hyn. Os caiff cyllid ei gadarnhau ar gyfer darparwyr gofal nyrsio, yna dylid datblygu hyn drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Roedd M Wim yn cytuno â'r cynnig hwn, a gofynnodd i'r cam hwn gael ei gymryd ar frys.

Rhoddodd FfJ wybod hefyd fod cydweithwyr o PBC yn lloïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol ar gyfer gofal nyrsio.

Roedd y Cyng. BF hefyd yn cefnogi M Wim ac yn pwysleisio bod angen rhagor o ffocws ar y sector hwn ar hyn o bryd, yn arbennig y sector cartrefi nyrsio.

Cadarnhaodd BEJ fod cydweithwyr o PBC yn ystyriol iawn o'r sefyllfa bresennol mewn cartrefi gofal ar draws y rhanbarth a'u bod yn cyfarfod â Gofal Cymdeithasol i drafod cynlluniau wrth gefn o fewn yr ardal ganolog, a'u bod hefyd yn ymwybodol o'r sefyllfa mewn perthynas â phroffion a'r angen am gymorth sylweddol yn y sector dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Cododd y Cyng. LE bryder mewn perthynas â rheoli staff a thrigolion ansymptomatig, gan gofio pa mor fregus yw'r sector a bod profion torfol yn

dangos nifer o achosion ansymptomatig, a nododd fod y canllawiau sy'n newid drwy'r amser hefyd yn heriol iawn.

Yn dilyn trafodaeth hir, cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo Cynllun y Gronfa Gofal Integredig i Gefnogi Rhyddhau Cleifion.

Camau Gweithredu

- Cadeirydd i ysgrifennu at LIC i roi pwysau am gyllid ar gyfer gofal nyrsio

4 Adroddiad Newid Cyfeiriad y Gronfa Gofal Integredig

Derbyniodd y bwrdd adroddiad a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Newid Cyfeiriad y Gronfa Gofal Integredig yn sgil COVID-19 i'w gymeradwyo.

Eglurodd BJE eto bod modd newid cyfeiriad i gefnogi COVID 19 pan nad yw cynlluniau cyfalaf yn gallu parhau neu pan fo tanwariant wedi'i nodi. Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai'n briodol ailgyfeirio cyllid i gynlluniau sy'n cynnig cefnogaeth uniongyrchol i ryddhau cleifion neu osgoi derbyn cleifion neu ar gyfer offer, addasiadau neu dechnoleg gynorthwyol.

Mae rhai partneriaid wedi gofyn i ail-gyfeirio 4 cynllun i gefnogi Covid:

Darparu iPads i gartrefi gofal er mwyn cynnal ymweliadau rhithiol x 2 gynllun – CBSC a CSDd

Cefnogaeth i gynyddu gwasanaethau trais domestig - CSYM

Cefnogaeth i gynyddu gwasanaeth profedigaeth - CSYM

Gofynnir i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gymeradwyo'r newid cyfeiriad hwn yn unol â'r trefniadau llywodraethu.

Gofynnodd HC am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r cynnydd yn y gwasanaeth trais domestig y gofynnwyd amdano gan IACC.

Yn dilyn trafodaethau, roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno i gymeradwyo ceisiadau newid cyfeiriad y Gronfa Gofal Integredig fel y nodwyd yn yr Adroddiad.

Camau Gweithredu

- BJE i anfon manylion ymlaen at HC

5 Unrhyw Fater Arall

Ymholodd John Gladston ynghylch y sefyllfa mewn perthynas â Chyfarpar Diogelu Personol mewn cartrefi gofal a rhoddodd wybod fod Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a'r Gwasanaeth Achub Mynydd yn dod o hyd i'w cyfarpar eu hunain. Rhoddodd MWim wybod fod y pryderon sylweddol a

godwyd rhai wythnosau'n ôl bellach wedi'u lleddfu, a fod y sefyllfa wedi gwella'n arw, ac nad oes unrhyw broblemau wedi codi eto. Fodd bynnag, bydd yn rhaid monitro'r sefyllfa gan fod materion ariannol yn dechrau dod i'r amlwg.

Rhoddodd SLW wybod fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar draws Cymru allan ar dendr am gyflenwyr newydd ar gyfer y 12 mis nesaf ar hyn o bryd, a bydd manylion am gyflenwyr posibl yn cael eu rhannu â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Rhoddodd TO wybod fod grŵp wedi'i sefydlu i drafod sicrwydd i gynnig cefnogaeth a chydgyfwrth i'w gilydd mewn perthynas ag unrhyw gyfarpar, a bydd cynaliadwyedd i'r dyfodol yn hollbwysig.

Eitemau er gwybodaeth:

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nodi'r canlynol:

- Newyddlen
- Cofnodion cyfarfod mis Mawrth –i'w cymeradwyo'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf
- Gwybodaeth gan LIC ynghylch rheoli'r grantiau yn ystod Covid

Camau Gweithredu

- SLW i anfon rhestr o gyflenwyr ymlaen

6 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cytunodd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyfarfod yn rhithiol am awr mewn tua 3-4 wythnos, bydd hyn yn cael ei drefnu.

Bydd cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a drefnwyd ar gyfer 10 Gorffennaf, 2020 sydd eisoes yng nghalendr bob aelod hefyd yn cael ei gynnal.

Camau Gweithredu

- Gwahoddiad i'w gylchredeg - RW